

Trafodion Addysg

ADDYSG GREFYDDOL YN YR YSGOL GYNRADD

GERAINT DAVIES



Goreu Diwylliwr Athraw Da

Ysgol Addysg
Prifysgol Cymru
Bangor
2004

Mae Dr Geraint Davies yn ddarlithydd yng Nghyfadrn Addysg ac Hyfforddiahnt Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Mae hefyd yn diwtor Sefydliad Farmington, Rhydychen. Bu gynt yn athro a phennaeth mewn ysgolion cynradd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac yn swyddog cwricwlwm gyda'r Cyngor Ysgolion. Mae wedi cyhoeddi yn eang ar faterion yn ymwneud â chrefydd, addoli, ysbrydolrwydd ac addysg.

Trafodion Addysg

ADDYSG GREFYDDOL YN YR YSGOL GYNRADD

GERAINT DAVIES

Ysgol Addysg
Prifysgol Cymru
Bangor
2004

TRAFODION ADDYSG
CYFRES A: Y CWRICWLWM

GOLYGYDDION CYFFREDINOL
W Gwyn Lewis
H Gareth Ff Roberts

BWRDD GOLYGYDDOL
Colin Baker
Wynford Bellin
Patrick Costello
Leslie J Francis
Roy James
Brin Jones
Gwilym Dyfri Jones
Meirion Prys Jones
Marilyn Martin-Jones
Sue Lyle
John Roberts
Tim Samuel
Dylan Wiliam
Cen Williams
Iolo Wyn Williams
Sian Rhiannon Williams

© Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor

2004

ISBN 1 84220 059 3

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na modd heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwyd, Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor.

Cyhoeddir y *Trafodion* hefyd ar wefan yr Ysgol Addysg
<http://www.bangor.ac.uk/addysg>

ADDYSG GREFYDDOL

yn yr

YSGOL GYNRADD

Mae i addysg grefyddol (AG) fel y'i dysgir yn ysgolion Cymru heddiw dair prif haen. Yn gyntaf, mae'n ceisio galluogi disgyblion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau ac arferion crefyddol. Gan fod Cristnogaeth wedi chwarae rhan mor arwyddocaol yn natblygiad hanesyddol y wlad hon, mae ei chredoau a'i harferion yn amlwg yn rhaglen AG y rhan fwyaf o ysgolion. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn dweud yn glir y dylai disgyblion hefyd gael y cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o gredoau ac arferion crefyddol y prif grefyddau eraill a arferir ym Mhrydain Fawr yn ogystal. Ymhlith y crefyddau a addysgir mewn ysgolion mae Iddewiaeth, Islam, Hindwaeth, Bwdhaeth a Sikhiaeth yn ychwanegol at Gristnogaeth. Nid ydym yn awgrymu y dylid addysgu'r holl grefyddau hyn i ddisgyblion ifainc ar yr un pryd. Yn wir, ffolineb fuasai gwneud hynny. Bydd pa grefyddau ac ar ba lefel y'u haddysgir yn amlwg yn dibynnu ar oedran y disgyblion, natur yr ysgol a gofynion y maes llafur y cytunir arno'n lleol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y disgyblion yn dysgu beth yw bod yn aelod o grefydd a arferir yn y byd heddiw.

Ail haen y pwnc yw ei gyfraniad i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion. Mae ysbrydolrwydd yn faes cymhleth, sy'n amhosibl, bron, ei ddiffinio. Y gorau y gallwn wneud yw disgrifio rhai o'i agweddau. Y mae a wnelo ysbrydolrwydd â beth yw byw a bod a gwneud synnwyr o brofiadau bywyd. Mae'n golygu ceisio cael atebion i gwestiynau sylfaenol megis 'A oes bywyd ar ôl marwolaeth?', 'Pam 'mod i ar y ddaear hon?', 'Pam fod pobl ddiniwed yn dioddef?', a 'Beth sy'n iawn a beth sy'n anghywir?'. Mae'n ymwneud â datblygiad cred bersonol a gwerthfawrogi cred eraill. Mae cael profiad o ryfeddod a dirgelwch yn agwedd allweddol arall. Mae hefyd yn golygu gwneud synnwyr o berthynas ddynol, ac, i rai, gwneud synnwyr o berthynas

gyda Duw. Agwedd arall yw ymateb i brofiadau sy'n eich herio. Tra bod i bob maes yn y cwricwlwm botensial i gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol plentyn, mae addysg grefyddol yn ei hanfod yn gyfrannwr allweddol.

Trydedd haen addysg grefyddol yw ymchwil i grefydd ac ymateb iddo. Mae hyn yn golygu datblygu agweddau a sgiliau cadarnhaol. Diffinnir sgiliau allweddol mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol gyhoeddiadau, ond fel rheol maent yn cynnwys y canlynol: ymchwilio, empathi, synthesis, dehongli, gwerthuso, cymhwyso, adfyfyrio, dadansoddi, a mynegi. Mae'r canlynol yn nodweddiadol o'r agweddau allweddol a gynhwysir ar gyfer datblygiad personol: ymrwymiad, tegwch, parch, hunan-ddealltwriaeth ac ymholi (SCAA, 1994a a 1994b).

Gall rhaglen addysg grefyddol sy'n cynnwys yr haenau hyn wneud cyfraniad cadarnhaol dros ben i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plentyn. Gall hefyd helpu i baratoi plant ar gyfer bywyd. Mae rhaglen addysgol o'r fath yn berthnasol i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir crefyddol neu ddiwylliannol.

Nod yr adran nesaf yw rhoi amlinelliad byr o hanes AG gan gyfeirio'n benodol at y sefyllfa yng Nghymru.

AG yn y cwricwlwm

Bu addysg grefyddol yn rhan o gwricwlwm sefydliadau addysgol Cymreig byth ers cyflwyno Cristnogaeth i'r wlad. Tan yn gymharol ddiweddar, chwaraeodd crefydd ran amlwg yn hanes y Cymry. Yr oedd bron i hanner y rhai sydd â'u hanes yn *Cymry Enwog* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1944) wedi dod i amlygrwydd yn rhannol, o leiaf, oherwydd eu cyfraniad i fywyd crefyddol Cymru. Creadigaethau cyrff crefyddol oedd yr ysgolion cyntaf, ac yr oedd cyfleu dysg grefyddol yn rhan o addysg plant o'r cychwyn cyntaf. O'r ysgolion mynachaid a sefydlwyd gan y seintiau Celtaidd at waith rhyfeddol pobl fel Griffith Jones, Llanddowror, yn y ddeunawfed ganrif (y bu ei ysgolion

cylchynol yn gyfrifol am addysgu dim llai na 158,237 o ddisgyblion mewn 3,495 o ddosbarthiadau, gan wneud cyfraniad enfawr i beri bod Cymru yn genedl lythrennog) yr oedd un peth yn gyffredin i'r ysgolion hyn – achub eneidiau oedd eu prif nod.

Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gwawrio'r gymdeithas ddiwydiannol newydd, yr oedd angen mawr ac amlwg am gyfundrefn ehangach o ysgolion, a allai ateb anghenion plant ledled y wlad. Sefydlwyd dwy gymdeithas yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i geisio sicrhau fod disgyblion yn cael eu dysgu'n ddigonol. Y gyntaf oedd y Gymdeithas Ysgolion Frutanaidd a Thramor a sefydlwyd ym 1814 (a ddeilliodd o'r Gymdeithas Lancastriaidd Frenhinol a sefydlwyd ym 1808) ac a gefnogwyd gan anghydfurfwyr ac Anglicaniaid rhyddfrydig i hybu 'addysg y dosbarthiadau gweithiol a chynhyrchiol mewn cymdeithas o bob perswâd crefyddol'. Yr ail oedd y Gymdeithas Genedlaethol, a sefydlwyd gan Anglicaniaid ym 1811 i hybu 'addysg y tlodion yn egwyddorion yr eglwys sefydledig'. Yn ychwanegol at hyn, crewyd Pwyllgor Ysgolion Catholig y Tlodion ym 1847 ar gyfer anghenion addysgol ac ysbrydol plant Pabyddol. Gwnaeth y cyrff hyn ymdrechion glew i agor ysgolion, a oedd nid yn unig yn darparu addysg elfennol i'w disgyblion ond a oedd hefyd yn rhoi iddynt addysg grefyddol gyffesol. Nid oedd yr ysgolion yn gwahaniaethu rhwng hyfforddiant crefyddol ac addoliad. Fel y noda McCreery (1993), 'yr oedd y naill yn paratoi plant ar gyfer cymryd rhan yn y llall'.

Ar waethaf eu gwaith caled a'u llwyddiant diymwad, daeth yn amlwg erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod bylchau enfawr yn bodoli o hyd yn y ddarpariaeth addysgol. Tra bo rhai ardaloedd, trefol yn bennaf, yn cynnig dewis o ysgolion i rieni, yr oedd mannau eraill lle cyfyngid y dewis i un math o ysgol, neu'n amlach na heb, dim ysgol o gwbl. Gan ei bod yn gyfoethocach, gallai'r Gymdeithas Genedlaethol godi nifer mwy o ysgolion, a thrwy hyn orfodi poblogaeth Cymru, a oedd yn anghydfurfiol yn bennaf, i anfon eu plant naill ai i ysgol eglwys neu beidio â'u hanfon i ysgol o gwbl.

Gwnaeth Deddf Addysg 1870, a oedd yn ymateb i bryderon a thrafodaethau'r dydd, ddarpariaeth ar gyfer dwy wahanol fath o ysgol – ysgolion gwirfoddol ac ysgolion bwrdd. Byddai ysgolion gwirfoddol (a oedd yn cael eu rhedeg gan y cymdeithasau gwirfoddol enwadol) yn parhau i dderbyn cymorth ariannol gan y wladwriaeth. Yn ychwanegol at hyn, sefydlwyd byrddau ysgol lleol i godi ysgolion lle'r oedd y ddarpariaeth leol yn annigonol. Anenwadol oedd yr ysgolion bwrdd, ac yn agored i bawb. Gallai'r ysgolion gwirfoddol barhau i ddarparu hyfforddiant crefyddol enwadol. Gallai ysgolion bwrdd, ar y llaw arall, benderfynu a oeddent am ddarparu hyfforddiant crefyddol ai peidio. Petaent yn penderfynu gwneud hynny, rhaid oedd iddo fod yn hyfforddiant anenwadol yn unol â chymal Cowper-Temple, a oedd yn datgan:

No religious catechism or religious formulary which is distinctive of any particular denomination shall be taught in any school provided by a school board. (1870 Deddf Addysg, Adran 14.2)

Er i'r cymal hwn gael ei gynnwys, ofnai rhai o hyd y byddai'r eglwysi yn ceisio cenhadu trwy'r ysgolion newydd. O ganlyniad i'w pryderon hwy, cyflwynodd y llywodraeth gymal cydwybod, a roddai hawl i rieni dynnu eu plant allan o hyfforddiant crefyddol.

Trosglwyddodd Deddf Addysg 1902 y gwaith o weinyddu addysg o ddwylo'r 2214 o fyrddau ysgol i 333 awdurdod addysg lleol. Rhod rheolaeth hefyd i'r AALL dros addysg secwlar mewn ysgolion gwirfoddol. Byddai ysgolion y wladwriaeth (a elwid bellach yn ysgolion wedi'u darparu) ac ysgolion gwirfoddol (a elwid bellach yn ysgolion heb eu darparu) yn cyd-fyw fel rhan o un gyfundrefn addysg gyhoeddus. Enynnodd hyn gryn ddicter o du'r anghydfurfwyr, yn enwedig yng Nghymru, a oedd yn gyndyn o weld eu trethi yn talu am gynnal ysgolion Pabyddol ac Anglicanaidd.

Rhwng y ddau ryfel byd, daethpwyd i sylweddoli fwyfwy y gellid cyflwyno hyfforddiant crefyddol yn fwy effeithiol pe ceid cytundeb ar gynnwys y ddarpariaeth. O sylweddoli hyn, anogwyd yr AALL i ffurfio a datblygu eu

meysydd llafur eu hunain ar gyfer hyfforddiant crefyddol. Erbyn diwedd y 1930au, yr oedd pob awdurdod addysg, bron, wedi mabwysiadu maes llafur y cytunwyd arno ac yr oedd cydnabyddiaeth eang i bwysigrwydd hyfforddiant crefyddol ac addoli ym mhob ysgol. Yr oedd hyn yn gam cadarnhaol, a gyfrannodd lawer at godi safonau yn y pwnc.

Carreg filltir bwysig yn hanes addysg grefyddol oedd pasio Deddf Addysg 1944. Daeth cyflwyno hyfforddiant crefyddol yn unol â maes llafur y cytunwyd arno a gweithred o addoliad dyddiol yn orfodol mewn ysgolion. Gyda'i gilydd, disgrifiwyd y ddau arferiad fel 'addysg grefyddol'. Cadwyd y cymal cydwybod, a oedd yn rhoi hawl i rieni dynnu eu plant allan o addysg grefyddol. Byddai gan awdurdodau addysg lleol yr hawl i ffurfio cyngor ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol i gynghori'r awdurdod ar faterion yn ymwneud â'r hyfforddiant crefyddol a roddid. Sefydlodd Deddf Addysg 1944 hefyd ddau ddosbarth o ysgol wirfoddol – rheoledig a chymorthedig. Cadwodd ysgolion gwirfoddol cymorthedig yr hawl i ddarparu hyfforddiant ac addoliad crefyddol enwadol. Yr oedd ysgolion gwirfoddol rheoledig i fod i roi hyfforddiant crefyddol yn ôl y maes llafur y cytunwyd arno'n lleol, er y gallai rhieni ofyn am addysgu enwadol.

Nid oedd y Ddeddf yn nodi pa grefydd neu grefyddau y dylid eu haddysgu. Rhagdybiwyd mai Cristnogaeth oedd yr unig ffydd a fyddai ei hangen. Trwy ddysgu am Gristnogaeth ac ymateb iddi, gallai plant y wlad ddysgu gwerthoedd moesol ac ysbrydol.

Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, cyfunodd nifer o newidiadau i fynnu bod addysgwyr yn ailfeddwl yn sylfaenol am natur addysg grefyddol mewn ysgolion. Ymhlith y rhain yr oedd newidiadau yn natur cymdeithas, cyfansoddiad ethnig y wlad, damcaniaeth addysgol, y cysyniad o rôl yr eglwys mewn addysg grefyddol, ac mewn dealltwriaeth seicolegol. Yr oedd methiant llawer o AG draddodiadol wedi arwain llawer o addysgwyr i godi cwestiynau am y modd yr addysgid y pwnc yn yr ysgolion.

Yn y blynyddoedd yn dilyn Deddf Addysg 1944, datblygwyd llawer agwedd wahanol at addysgu AG mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gan gynnwys yr agwedd gyffesol, agwedd crefydd ymhlyg, a'r agwedd crefydd phenomenolegol neu echblyg (gweler y Cyngor Ysgolion (1977) am drafodaeth lawnach o'r methodolegau hyn). I rai, arweiniodd y gwahanol agweddau at ddryswch ynglŷn â natur y pwnc. Fodd bynnag, canlyniad cadarnhaol y trafodaethau hyn oedd fod cytundeb cyffredinol erbyn y 1980au am nod y pwnc yn ein hysgolion. Yn eu plith yr oedd galluogi'r disgyblion i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac agweddau mewn perthynas â Christnogaeth a chrefyddau eraill y byd, a chyfle i gyfrannu yn gadarnhaol at eu hymchwil bersonol eu hunain am ystyr a diben eu bywydau eu hunain.

Deddf Diwygio Addysg 1988

Cafodd Deddf Diwygio Addysg 1988 effaith sylweddol ar addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion. Ymdrechodd i adeiladu ar lawer o'r amodau a osodwyd i lawr yn Neddf 1944 a gwneud y pwnc yn berthnasol i'r oes fodern.

Dywedai'r Ddeddf y dylai'r cwricwlwm ar gyfer pob ysgol a gynhelid gan y wladwriaeth fod â chwricwlwm sylfaenol a oedd yn cynnwys darpariaeth am *addysg grefyddol* i'r holl ddisgyblion a oedd wedi cofrestru yn yr ysgol; a chwricwlwm i'r holl ddisgyblion a oedd wedi cofrestru yn yr ysgol ac a oedd o oed ysgol gorfodol (a adwaenid fel y 'Cwricwlwm Cenedlaethol'). Mewn geiriau eraill, byddai addysg grefyddol yn bwnc gorfodol gyda statws unigryw. Yr oedd bod yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol yn hytrach na'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn golygu, er bod iddo'r un safle â phynciau eraill, y byddai'n rhydd o unrhyw reolaeth gan y llywodraeth ac y byddai'n cael ei osod yn bendant yn nwylo'r awdurdodau addysg. Gwnaeth y Ddeddf hi'n ddyletswydd ar bob awdurdod addysg lleol i ffurfio cyngor ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol, a fyddai'n gwneud y canlynol:

rhoi cyngor i'r awdurdod ar faterion yn ymwneud ag addoliad crefyddol yn ysgolion y sir a'r addysg grefyddol a roddir yn unol â'r maes llafur y cytunwyd arno fel y gall yr awdurdod gyfeirio at y

cyngor yn ôl doethineb y cyngor. (1988 Deddf Diwygio Addysg, Adran 11.1a).

O hyn allan, byddid yn addysgu AG yn unol â maes llafur cytunedig ac a ffurfiwyd gan yr AALI neu gan awdurdod arall ac a fabwysiadwyd gan yr AALI. Rhaid i'r holl feysydd llafur newydd cytunedig 'adlewyrchu'r ffaith fod y traddodiadau crefyddol ym Mhrydain yn bennaf yn Gristnogol tra'n cymryd i ystyriaeth hefyd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr'. Am y tro cyntaf erioed, byddai maes llafur cytunedig yn annerbyniol onibai iddo gynnwys cyfeiriad at Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill. Nid aethpwyd i fanylion am y cydbwysedd rhwng Cristnogaeth a chrefyddau eraill. Ni fanylwyd chwaith am ystyr yr ymadroddion 'adlewyrchu'r ffaith' na 'chymryd i ystyriaeth', gyda'r awgrym y dylid gadael mater y cydbwysedd i'r awdurdodau unigol benderfynu arno. Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd llafur wedi 1988 yn cyfeirio at bum crefydd yn ychwanegol at Gristnogaeth, sef, Iddewiaeth, Islam, Hindŵaeth, Bwdhaeth a Sikhiaeth.

Cadwyd yr hawl i dynnu allan o wersi. Yr oedd gan rieni'r hawl i ofyn am i'w plant gael eu hesgusodi yn rhannol neu yn gyfan gwbl o addysg grefyddol neu o addoliad. Gallai athrawon a deimlai, ar sail cydwybod, nad oedd modd iddynt ddysgu addysg grefyddol, hefyd wneud cais am gael eu heithrio o ddysgu'r pwnc.

Cadarnhawyd y gofynion cyfreithiol ynglŷn ag addysg grefyddol a amlinellwyd yn Neddf Diwygio Addysg 1988 gan Ddeddfau Addysg 1996 a 1998.

Meysydd Llafur y Cytunwyd Arnynt

Yn ddamcaniaethol, 'roedd yn bosibl cael cynifer o feysydd llafur cytunedig ag oedd o awdurdodau addysg. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, defnyddiodd llawer o awdurdodau yr un cynlluniau. Dau gynllun poblogaidd y seiliwyd nifer o feysydd llafur arnynt oedd y rhai a gynhyrchwyd gan Goleg Westhill, Birmingham a chan Brifysgol Caerwysg. Yn Lloegr, cyhoeddodd yr Awdurdod

Cwricwlwm ac Asesu Ysgolion Feysydd Llafur Enghreifftiol ym 1994. Bwriad y rhain oedd helpu AALI i gynhyrchu eu meysydd llafur eu hunain. Yr oedd iddynt ddau darged cyrhaeddiad:

TC 1 Dysgu am Grefyddau

TC2 Dysgu oddi wrth Grefydd

Seiliodd AALI Cymru eu meysydd llafur cyntaf wedi 1988 i amrywiol raddau ar gynllun Westhill. Felly, mae gan yr holl feysydd llafur y cytunwyd arnynt yng Nghymru y tair nodwedd gyffredin a ganlyn:

Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd

Dylid addysgu'r disgyblion am greddau ac arferion Cristnogaeth, fel prif draddodiad crefyddol Prydain Fawr, ac am y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr.

Ymwybyddiaeth o brofiad bywyd

Dylid addysgu'r disgyblion i ddeall eu profiad o'r byd naturiol ac o gydberthnasau dynol ac i fod yn ymwybodol o'r materion a'r cwestiynau a godir ganddynt. Yn y broses, gwneir y disgyblion yn ymwybodol o'r cwestiynau anodd a hanfodol sy'n wynebu pawb.

Archwilio ac ymateb

Dylid addysgu ystod o sgiliau i'r disgyblion a fydd yn eu galluogi i archwilio profiad crefyddol a dynol drostynt eu hunain. Mae'n rhaid eu hannog a'u galluogi, yn enwedig, i ofyn eu cwestiynau eu hunain ac i gynnig ymatebion personol i'w cwestiynau eu hunain ac i gwestiynau pobl eraill.

(Estyn, 2000:1)

Yn ychwanegol at hyn, mae meysydd llafur cytunedig yng Nghymru hefyd yn cynnwys agweddau cyffredin (a elwir weithiau yn feysydd) gan gynnwys:

- credoau allweddol sy'n gwahaniaethu crefyddau penodol;

- cwestiynau a materion y mae crefydd yn eu hwynebu a'u trafod;
- dulliau a ddefnyddir gan gredwyr i addoli a dathlu eu ffydd;
- ffyrdd o fyw sy'n deillio o gred grefyddol;
- ffynonellau o awdurdod ar gyfer credwyr, gan gyfeirio'n arbennig at ysgrythurau cysegredig, ffigurau hanesyddol allweddol yn y traddodiadau crefyddol ac arweinwyr cymunedol cyfoes;
- straeon a digwyddiadau allweddol yn y traddodiadau crefyddol;
- natur cymunedau ffydd lleol ac ehangach.

(Estyn, 2000: 1)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu tuedd i feysydd llafur cytunedig ddod yn fwy cyfarwyddol. Yn dilyn arweiniad Meysydd Llafur Enghreifftiol yr Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Ysgolion, mae rhai bellach yn cynghori ysgolion am nifer y crefyddau a addysgir ym mhob cyfnod allweddol. Yr oedd meysydd llafur y SCAA yn argymhell cyflwyno Cristnogaeth ac un grefydd arall yn CA1 a Christnogaeth a dwy grefydd arall yn CA2. Nid pob AALI, serch hynny, sydd wedi dilyn y duedd hon.

Tra bod peth amrywiaeth rhwng meysydd llafur parthed eu hamcanion AG fel y'u datganwyd, mae'n annhebyg y byddant yn sylweddol wahanol i'r canlynol, a amlinellwyd ym meysydd llafur SCAA:

- cael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr
- datblygu dealltwriaeth o ddylanwad cred, gwerthoedd a thraddodiadau ar unigolion, cymunedau, cymdeithasau a diwylliant
- datblygu'r gallu i ddod i farn resymegol ar sail o wybodaeth am bynciau crefyddol a moesol gan gyfeirio at ddysgeidiaeth y prif grefyddau a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr
- cyfoethogi eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol eu hunain
 - datblygu ymwybyddiaeth o gwestiynau sylfaenol bywyd a godir yn sgîl profiadau dynol a sut y mae dysgeidiaeth grefyddol yn cysylltu â hyn
 - ymateb i'r cyfryw gwestiynau yng ngoleuni eu profiadau eu hunain a chan gyfeirio at ddysgeidiaeth ac arferion crefyddau

- adfyfrio am eu credoau, eu gwerthoedd a'u profiadau eu hunain yng ngoleuni eu hastudiaethau

- datblygu agweddau cadarnhaol tuag at bobl eraill a'u hawl i lynu at gredoau gwahanol i'w rhai hwy, ac i fyw mewn cymdeithas amrywiol ei chrefyddau.

(SCAA, 1994a, 1994b)

Ni chrybwyllir annog disgyblion i fabwysiadu unrhyw gredoau crefyddol. Yn hytrach, proses addysgol ydyw, gyda'r nod o alluogi plant i ymchwilio a gwneud synnwyr o'u profiadau personol eu hunain a datblygu dealltwriaeth o gred ac arferion crefyddol.

Cynllunio Addysg Grefyddol

Mae cynllunio da yn hanfodol os am gyflwyno AG yn effeithiol. Un feirniadaeth yr arferid ei gwneud o ddarpariaeth AG, yn enwedig pan fyddai'n cael ei chyflwyno yn gyfan gwbl trwy'r agwedd thematig, oedd ei bod yn aml yn ddiffygiol mewn cysondeb a chynnydd. Yn ôl Bates (1992), y prif feirniadaeth ar yr agwedd hon oedd 'ei diffyg strwythuro eglur, ei hagwedd dameidiog at wybodaeth, ei natur ailadroddus a'i diffyg cynnydd'. Yn ffodus, newidiodd y sefyllfa er gwell. Y dyddiau hyn, mae pob ysgol yn ymwybodol o'r angen am gynllunio gofalus yn y tymor byr, canol a hir mewn AG yn ogystal ag mewn pynciau eraill.

Dylai'r cynllunio tymor hir adlewyrchu gofynion y maes llafur y cytunir arno'n lleol ynghyd â pholisi addysg grefyddol yr ysgol ei hun. Ei ddiben yw nodi beth a addysgir i ddisgyblion ym mhob cyfnod ar draws y gwahanol oedrannau, a thrwy hyn sicrhau'r cysondeb a'r cynnydd priodol. Mae cynllunio tymor canol fel arfer yn amlinellu sut y cyflwynir pob uned sydd yn y cynllun tymor hir. Dylai hyn fod yn weithgaredd ysgol gyfan, gyda'r cydlynnydd AG â chryn gyfraniad er mwyn sicrhau cynnydd digonol. Mae cynllunio tymor byr yn cyfeirio at gynllunio cyfres o wersi, a phob un yn cynnwys amcanion dysgu penodol, gweithgareddau addysgu a dysgu, a

chyfleoedd asesu wedi eu nodi. Yn amlwg, yng Nghymru, rhaid meddwl am ymgorffori'r Cwricwlwm Cymreig ym mhob un o gyfnodau'r cynllunio.

Mae cyngor ardderchog ar gynllunio yn y tymor byr, canol a hir ar gyfer addysg grefyddol ar y wefan Safonau a gynhyrchir gan yr Adran Addysg a Sgiliau: www.standards.dfes.gov.uk/schemes2/religion/. Cynllunnir uned enghreifftiol wahanol ar gyfer pob tymor yn y flwyddyn ysgol gynradd, a chyfeirir ym mhob uned at: sut mae'r uned yn ffitio i mewn, dysgu blaenorol, geirfa, adnoddau a disgwyliadau'r disgyblion. Rhennir pob uned yn bynciau, a nodir amcanion dysgu, gweithgareddau addysgu posibl, deilliannau dysgu a phwyntiau penodol ar gyfer pob un. Yn ogystal â rhoi cynllun enghreifftiol o waith ar gyfer addysg grefyddol gynradd, mae'r wefan yn rhoi canllawiau manwl am sut i addasu'r rhain a sut y gall athrawon greu eu cynllun eu hunain.

Addysgu Addysg Grefyddol

Mae'n haws y dyddiau hyn i adnabod arfer da mewn addysg grefyddol yn yr ysgol gynradd nag y bu erioed. Un rheswm am hyn yw ymddangosiad llawer o gyhoeddiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn amlinellu'n benodol beth a olygir gan arfer da (gweler Copley, 1994; Read et al, 1992; Bastide, 1987, 1992, 1999; Hammond et al, 1990; Smith, 1990; Jackson a Starkins, 1990; Cole ac Evans-Lowndes, 1991; Kinkaid, 1991; Broadbent, 1993; Copley a Copley, 1993; Langtree, 1997). Mae'r cyhoeddiadau hyn yn awgrymu nifer o strategaethau addysgu ar gyfer datblygu cysyniadau, agweddau, sgiliau a gwybodaeth (CASG) sy'n briodol ar gyfer dysgu mewn addysg grefyddol. Mae sgiliau allweddol yn amrywio rhywfaint o un cyhoeddiad i'r llall, ond yn nodweddiadol maent yn cynnwys empathi, adfyfyrio, cyfathrebu, rhesymu, ymholi, dadansoddi a gwerthuso (Langtree, 1997). Mae'r canlynol yn nodweddion yr agweddau allweddol a gynhwysir ar gyfer datblygiad: hunan-barch, parch, meddwl agored, sensitifrwydd, ymwybyddiaeth feirniadol, gwerthfawrogiad a rhyfeddod (Langtree, 1997).

Mae pwyslais cryf yn y cyhoeddiadau AG a'r meysydd llafur cytunedig diweddaraf ar roi i ddisgyblion brofiad uniongyrchol o grefydd. Bydd hyn bron yn sicr yn cynnwys rhoi i ddisgyblion gyfle i ymweld â mannau addoliad, derbyn ymweliadau gan aelodau o wahanol gymunedau ffydd, ac i ymchwilio i arteffactau crefyddol.

Mae mannau addoliad yn adnodd gwerthfawr iawn ar gyfer addysg grefyddol. Fe'u ceir ym mhob cymuned, bron, ac y maent yn aml yn fannau sydd yn croesawu ac yn annog ymweliadau gan ysgolion. Gellir mynd â disgyblion ar ymweliadau â mannau addoliad am amrywiaeth o resymau, ac y mae'n hanfodol bod yr athro/athrawes yn glir am ddiben yr ymweliad o'r cychwyn cyntaf. Er enghraifft, gall ymweliad AG ag eglwys droi'n weithgaredd hanes pan fydd y prif bwyslais ar yr arteffactau hanesyddol a geir yn yr adeilad.

O safbwynt addysg grefyddol mae dau reswm o leiaf pam y gallai ysgol fynd â disgyblion ar ymweliad â man addoliad. Un o'r rhain yw i alluogi'r disgyblion i brofi'r awyrgylch. Mae gan lawer o adeiladau, yn enwedig mannau addoliad, y grym i ennyn teimladau ynom. Bydd llawer o athrawon yn gofyn i'w disgyblion eistedd yn dawel am funud neu ddwy wedi iddynt ddod i mewn i'r man addoliad ac wedyn yn gofyn iddynt ddisgrifio sut yr oeddent yn teimlo, beth oeddent yn glywed, yn weld, arogli neu synhwyro; a pha feddyliau oedd yn dod i'w pennau. Mae rhoi cyfle i ddisgyblion fod yn llonydd a thawel er mwyn iddynt adfyfrio ar sut mae'r adeilad yn 'siarad' â hwy yn brofiad AG gwerthfawr dros ben. Cafodd yr awdur amrywiaeth o ymatebion wrth wneud gweithgaredd o'r fath, yn amrywio o brofiadau 'wow' lle mae disgyblion yn dweud iddynt brofi parchedig ofn a rhyfeddod yr adeilad i ddisgyblion a gyfaddefodd iddynt gael eu dychryn gan faint ac oerni'r lle. Gall yr ail fath o ymateb godi cwestiynau i gymunedau crefyddol sydd yn gweld lleihad mewn niferoedd ynglŷn â sut i wneud eu mannau addoliad yn fwy croesawgar. Bydd yr ymateb yn naturiol yn dibynnu i raddau helaeth ar yr adeilad a ddewisir. Os mai un o'n hamcanion wrth wneud gweithgaredd o'r fath yw

hybu agweddau cadarnhaol tuag at grefydd yna mae'n dilyn y dylem fod yn ofalus iawn wrth ddewis pa fannau i ymweld â hwy.

Ail ddiben ymweliad fuasai helpu'r disgyblion i adnabod rhai o nodweddion allweddol yr adeilad a'u helpu i ddeall eu harwyddocâd i'r gymuned sy'n addoli. Yn amlwg, gall profiad o'r fath gyfrannu'n sylweddol at ddealltwriaeth y disgyblion o ffeithiau, cysyniadau a symbolaeth grefyddol. Er enghraifft, gallai ymweliad ag eglwys helpu disgyblion i ddeall pam fod gan yr adeilad le arbennig yng nghalonau Cristnogion. Gall edrych ar yr eglwys o'r tu allan eu helpu i adnabod ei nodweddion arbennig. O edrych ar du mewn yr adeilad, mae cyfle i'r disgyblion ddod i ddeall arwyddocâd nodweddion allweddol megis yr allor, y pulpud, darllenfa, corau, y fedyddfan, ffenestri lliw a'r organ, a gwrthrychau allweddol megis croesau, croesluniau ac allorau. Mae hysbysfyrddau a chylchgronau'r eglwys yn medru helpu'r disgyblion i ddeall rhai o'r gweithgareddau sy'n rhan o fywyd cymuned yr eglwys.

O safbwynt addysgol, yr amser gorau i ymweld ag unrhyw adeilad crefyddol yw pan fo addoliad yn digwydd. Fel hyn, gall y plant ddeall yn well y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r addoliad. Gall ymweliad â mandir Hindŵaidd, er enghraifft, alluogi'r disgyblion i ddeall fod yr addolwyr yn diosg eu hesgidiau fel arwydd o barch pan ddeuant i'r adeilad a'u bod yn ymestyn eu dwylo dros y fflamau i amsugno daioni'r goleuni yn ystod y seremoni arti. Fodd bynnag, am amrywiaeth o resymau, nid yw bob amser yn bosib i ymweld yn ystod adegau addoli, ac mewn achosion o'r fath, gall defnyddio fideo priodol helpu i ategu'r dysgu.

Mae athrawon weithiau yn digalonni oherwydd eu bod yn pryderu am eu diffyg gwybodaeth eu hunain. Mae'n amlwg y buasai ymweliad rhagarweiniol gan yr athro/athrawes a pheth darllen cefndir yn llesol. Fodd bynnag, bydd athrawon bron yn sicr o ddarganfod, os dewisant eu man addoliad yn ofalus, y bydd cynrychiolwyr y gymuned ffydd yn falch o roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt. Bydd ymweliad llwyddiannus yn aml yn golygu gwaith

rhagbaratoi a gwaith dilynol. Gall gwaith rhagbaratoi olygu edrych ar luniau o wahanol rannau o'r man addoliad neu ddarllen am brofiadau ymweliad rhywun arall. Bydd hefyd bron yn sicr o gynnwys trafodaeth am y sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen ar gyfer ymweliad o'r fath. Dylid gweld dysgu am yr angen i ddangos parch a sut i wneud hyn fel agwedd allweddol o unrhyw ymweliad AG. Arfer doeth gan lawer o athrawon CA2 yw gofyn i'r disgyblion ysgrifennu côd ymddygiad cyn ymweliad o unrhyw fath. Mae gan rai mannau addoliad reolau arbennig ynglŷn â'r hyn y gellir ei wisgo yn ogystal â disgwyliadau am ymddygiad, a dylid gwneud y rhain yn glir mewn unrhyw waith rhagbaratoi. Mae gwaith dilynol yn amlwg yn dibynnu ar oedran y plant a gall olygu trafodaeth, gwaith celf, gweithgareddau ysgrifenedig megis llythyrau diolch yn ogystal â gweithgareddau ymchwil pellach i'r disgyblion wneud.

Gall ymwelwyr fod yn adnodd campus arall i AG cynradd, ac y mae ymwelwyr ac ymweliadau yn aml yn cyd-fynd yn dda. Gallai rhan o'r gwaith paratoi cyn ymweliad olygu gwahodd arweinydd neu aelod o gymuned addoli i sgwrsio â'r dosbarth. Bydd llwyddiant gweithgaredd o'r fath yn dibynnu nid yn unig ar neges y siaradwr ond hefyd ar ei g/allu i gyfathrebu'n effeithiol gyda phlant. Fel gyda'r man addoliad, mae gwneud y dewis iawn yn ffactor allweddol wrth wahodd ymwelydd i siarad gyda dosbarth. Bydd gofyn rhoi i unrhyw ymwelydd ganllawiau clir ymlaen llaw ynglŷn â diben ei h/ymweliad a'r cyfraniad a wnaiff yr ymweliad i ddysgu'r plant mewn AG. Mae'n aml yn syniad da i baratoi'r plant ymlaen llaw trwy gytuno ar y cwestiynau y byddant yn eu gofyn i'r ymwelydd. Gall ymweliadau gan arweinyddion cymunedau ffydd helpu'r plant i ddeall eu bod yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau yn ychwanegol at weinyddu mewn gwasanaethau a seremonïau crefyddol. Ymhlith y gweithgareddau mae ymweld â'r claf, gofalu bod y man addoliad yn cael ei gynnal mewn trefn, a rhoi cefnogaeth lle bo angen.

'Does dim rhaid cyfyngu ymwelwyr i arweinyddion cymunedau ffydd. Mae'n beth synhwyrol hefyd gwahodd aelodau o'r gymuned addoli i siarad gyda'r plant. Gall hyn fod yn ffordd effeithiol o helpu plant i ddeall y gall credoau crefyddol pobl ddylanwadu'n uniongyrchol ar y ffordd maent yn byw eu bywydau. Gall ymweliadau gan aelodau o sefydliadau elusennol hefyd gyfrannu at ddysgu effeithiol mewn AG. Gall dysgu am yr hyn maent yn wneud a pham eu bod yn gwneud hynny, yn enwedig os mai cred grefyddol sy'n sail i'w gwaith, helpu plant i ddeall fod ffydd yn aml yn dylanwadu ar ffyrdd pobl o fyw.

Trydydd dull o roi i ddisgyblion brofiad uniongyrchol o grefydd yw rhoi cyfle iddynt ymchwilio i arteffactau crefyddol. Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gasgliad o arteffactau a ddefnyddir at y diben hwn. Arteffact crefyddol, yn y bôn, yw gwrthrych a ddefnyddir mewn crefydd. Mae gan bob prif draddodiad crefyddol ystod o wrthrychau o'r fath y gellid eu defnyddio mewn ffordd addysgiadol dda mewn AG yn yr ysgol gynradd. Er enghraifft, mae modd cyfoethogi gwers am Sikhiaeth trwy ganiatáu i ddisgyblion edrych i mewn i'r 5K (pum symbol sanctaidd y Sikhiaid: Kesh – gwallt heb ei dorri; Kangha – y grib; Kara – y freichled ddur; Kachh – y trowsus cwta; a, Kirpan – y cleddyf). Gallai defnyddio kannwyll fedydd a gwisg fedydd godi lefel y diddordeb mewn gwers am fedyddio Cristnogol. Gallai defnyddio *Qu'ran* gyda'i glawr a'i stand helpu gwell dealltwriaeth o'r parch a ddangosir gan Fwslemiaid i'w llyfr sanctaidd. Mae modd defnyddio *tallit*, *tefillin* a chap corun i greu diddordeb mewn dillad ac addoliad Iddewig. Buasai ymchwilio i'r arwydd *AUM*, y blodyn lotws a'r swastika o gymorth wrth ddysgu am sumboliaeth Hindŵaidd. Yn yr un modd, gallai baneri gweddi gynyddu'r diddordeb wrth ymchwilio i addoliad Bwdistaidd. Gan fod arteffactau yn chwarae rhan mor arwyddocaol ym mywydau credinwyr, mae'n bwysig gwneud llawn ddefnydd ohonynt yn y dosbarth. Mae eu defnyddio fel rhan o raglen AG gytbwys yn cael ei ystyried fel ffordd briodol o ddwyn crefydd yn fyw i blant, yn enwedig y rhai hynny na fuasai fel arall yn cael fawr ddim profiad o grefydd.

Unwaith eto, pryder am eu diffyg gwybodaeth eu hunain yw un o'r ffactorau mwyaf allweddol sy'n atal athrawon rhag gwneud defnydd llawn o'r arteffactau lle byddant ar gael. Mae nifer o gyhoeddiadau gwych megis *Religious Artefacts in the Classroom* gan Gateshill a Thompson (1992) yn ganllawiau buddiol ar gefndir yr arteffactau hyn a ffyrdd o'u defnyddio. Mae Prifysgol Strathclyde hefyd wedi cynhyrchu gwefan ddefnyddiol sy'n rhoi ffotograffau a lluniau o'r arteffactau a ddefnyddir amlaf yn y dosbarth y dyddiau hyn. Hefyd, fe'u hategir gan nodiadau sy'n rhoi gwybodaeth gefndir am arwyddocâd a defnydd pob un arteffact (www.strath.ac.uk/Departments/SocialStudies/RE/Database/Graphics/Images.html).

Wrth gwrs, mae'r negeseuon a gyfleir wrth drin arteffactau yn yr ystafell ddosbarth mor bwysig ag addysgu am yr arteffactau eu hunain. Pan fydd yr athro/athrawes yn trin arteffactau gyda pharch, yna bydd y disgyblion yn cael eu hannog i ddangos agwedd gyffelyb wrth eu defnyddio. Un ffordd o ddatblygu'r syniad hwn o barch at arteffactau yw i'r athro/athrawes ddangos i'r dosbarth wrthrych sy'n annwyl iddi/o a thrafod sut y carai i'r gwrthrych gael ei drin. Gall trafodaethau o'r fath arwain at archwilio'r gwrthrychau sy'n annwyl i'r plant hwythau a sut y carent hwy iddynt gael eu trin. Mae gan y rhan fwyaf o bobl arteffactau sydd o werth personol iddynt ac sy'n dwyn i gof atgofion a theimladau yn eu cylch. Mae deall fod gan arteffactau y pŵer hwn a bod arteffactau crefyddol o arwyddocâd arbennig i gymunedau ffydd yn agwedd bwysig o AG cynradd.

Nid oes un ffordd gywir o ddefnyddio arteffactau. Mae canllawiau defnyddiol ar ddulliau gwahanol o ddefnyddio arteffactau i addysgu AG aml-ffydd ar wefan Esgobaeth Ely: www.ely.anglican.org/education/2003/schools/activere.html. Awgryma'r safle y gellir defnyddio arteffact fel symbol (er enghraifft, *kara* y Sikhiaid yn symbol o unoliaeth Duw ac o undod Sikhaid); fel canolbwynt (er enghraifft, trwy ganiatáu i'r disgyblion ganolbwyntio ar arteffact mewn tawelwch fel rhan o weithgaredd ymlonyddu); i gyfleu neges

(er enghraifft, gallai disgyblion weld y parch a ddangosir gan athro pan fydd yn trin y *Qur'an*); fel rhan o ddynwared seremoni; a defnyddio dull y pum synnwyr. Mae Gent a Gent (1997a a 1997b) yn argymhell agwedd driphlyg:

Y cyfnod 'penbleth' (lle'r ymchwiliwr i'r arteffact a cheisio cliwiau i'w ystyr a'i ddefnydd), y cyfnod 'ategu' (lle rhoddir gwybodaeth ychwanegol) a'r cyfnod 'personoleiddio' (lle'r ymchwiliwr i gysylltiadau gyda bywydau plant).

Er ei fod yn beth dymunol, nid yw yn bosibl yn wastad rhoi profiad uniongyrchol o grefydd i ddisgyblion. Mewn achosion o'r fath, mae llawer i'w ennill o ddefnyddio adnoddau megis lluniau, poster, fideos a rhaglenni teledu. Bydd cynlluniau/llyfrau AG hefyd yn fuddiol iawn i athrawon prysur sy'n anelu at y nod o ddarparu AG o safon. Mae adolygiad o rai o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer AG cynradd ar gael ar wefan Sefydliad Coleg Culham: culham.info/rtc/index.

Ni fuasai unrhyw drafodaeth am AG yn yr ysgol gynradd yn gyflawn heb gyfeirio at y defnydd a wneir o stori. Gall stori dda, wedi ei dewis yn ofalus a'i dweud yn dda, wneud cyfraniad sylweddol i'r tair agwedd o AG a amlinellwyd uchod. Gall storïau o'r traddodiadau crefyddol, yn ogystal â storïau secwlar, ddyfnhau dealltwriaeth plant o grefydd, cyfrannu at eu hymwybyddiaeth o brofiadau bywyd, a'u helpu i ymchwilio ac ymateb i grefydd a phrofiadau bywyd. Mae modd dehongli'r storïau AG gorau ar wahanol lefelau a byddant yn codi'r math o gwestiynau a fydd yn dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion. Mae stori'r Hen Destament am Adda ac Efa, er enghraifft, yn codi cwestiynau am y natur ddynol, temtasiwn a'n hanallu ni i gadw at ein delfrydau yn ein bywydau. Mae llawer stori secwlar ardderchog yn ymdrin â themâu sy'n bwysig mewn AG megis teimladau, ofnau, perthynas, ymddygiad, eiddo, y byd naturiol, ac angau. Mae *Motyn* Shirley Hughes (1993), er enghraifft, yn ymdrin â llawer o themâu megis caredigrwydd, aberth, eiddo a gwerthoedd.

Yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r ymborth AG yn yr ysgol gynradd gynnig i'r disgyblion ddigon o gyfle i ddilyn gweithgareddau dysgu bywiog. Gallai hyn gynnwys:

- trafodaeth
- gweithgareddau celf a chrefft
- ysgrifennu creadigol
- chwarae rôl, gwisgo a gweithgareddau drama
- dathlu gwyliau, gan gynnwys gwneud cardiau a choginio bwyd
- tynnu lluniau efo camera
- ymchwilio
- gweithgareddau TGCh, gan gynnwys prosesu geiriau, defnyddio CD-Roms, defnyddio pecynnau dylunio a chelf, a defnyddio'r rhyngwrdd
- llonyddwch ac adfyfrio.

Asesu

Yn ystod y blynyddoedd a ddilynodd Ddeddf Diwygio Addysg 1988 cafwyd cryn ddadlau ynglŷn â pha mor ddymunol oedd asesu addysg grefyddol. Yr oedd y sawl a ddadleuai yn erbyn y syniad yn cyfeirio at natur breifat crefydd, peth mor wrthun oedd asesu ysbrydolrwydd plant, a'r galwadau a wnâi asesu o'r fath ar amser athrawon. Fodd bynnag, os yw AG i'w gymryd o ddifrif fel pwnc sydd â safle sy'n gyfartal â phynciau eraill, yna barn y mwyafrif heddiw yw y dylid ei asesu. Ymhellach, dadleuir fod asesu yn galluogi 'athrawon, llywodraethwyr a rhieni i wybod beth sy'n cael ei wneud mewn addysg grefyddol' ac yn 'hybu effeithiolrwydd proffesiynol, gan roi eglurder i athrawon sy'n brysur ac yn aml heb arbenigo yn y pwnc' (Watson, 1993). Cytunir yn gyffredinol na ddylai asesu o fewn AG olygu unrhyw werthuso ar gred breifat disgyblion na'u datblygiad ysbrydol.

Wrth asesu, yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw casglu tystiolaeth a fydd yn dweud wrthym lle mae disgyblion wedi cyrraedd yn eu dysgu ynghyd â'r math o gefnogaeth y bydd arnynt ei angen i ddatblygu ymhellach. Mae modd

rhannu'r dystiolaeth hon gyda'r disgyblion eu hunain, a dylid gwneud hynny. Dylai fod yn sail i adrodd am eu cynnydd wrth eu rhieni. Bydd y dystiolaeth hefyd yn ddefnyddiol iawn i ysgolion ac athrawon unigol wrth werthuso y ffordd y maent hwy yn cyflwyno AG.

Dylai asesu mewn AG ymwneud â'r hyn mae disgyblion yn ei wybod, beth y maent yn ei ddeall a beth fedrant ei wneud. Dylai fod yn seiliedig ar amcanion dysgu clir. Mae llawer o wirionedd yn sylw Smith (1990) 'os nad yw dyn yn gwybod lle mae'n mynd, yna 'does dim ffordd o ddweud a yw wedi cyrraedd ai peidio'. Iddo fod o werth, rhaid gweld asesu fel rhan hanfodol o'r broses addysgu a dysgu, wedi'i ymgorffori yn y cynllunio cychwynnol. Bydd gofyn i'r broses asesu adlewyrchu'r dair haen yn y meysydd llafur Cymreig a nodwyd uchod. Dylai'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a asesir adlewyrchu cynnwys y datganiadau diwedd cyfnod allweddol a geir yn y maes llafur. Yn yr un modd, dylai asesu'r hyn y gall y plant wneud adlewyrchu'r sgiliau a amlinellir yn y maes llafur.

Dylai gweithgareddau asesu ar gyfer AG olygu bod y disgyblion yn defnyddio ystod eang o sgiliau. Yn amlwg, po ehangaf yr ystod o sgiliau, gorau fydd ein darlun o'u cyraeddiadau. Lle bo modd, dylai gweithgareddau asesu gynnwys y canlynol: gwaith llafar megis trafod, dadlau, holi ac ateb cwestiynau; gwaith ysgrifenedig megis ateb cwestiynau penodol, mynegi gwybodaeth a syniadau trwy storïau, cerddi, dyddiaduron a thaflenni asesu penodol; a deilliannau mynegiannol megis chwarae rôl a drama. Mae AG yn bwnc lle mae ymateb personol, barn ac agwedd o bwys yn yr un modd â gwybodaeth, a dylid adlewyrchu hyn yn y broses asesu.

Mae tuedd gynyddol i awdurdodau addysg lleol gynnwys disgrifiadau lefel yn eu meysydd llafur cytunedig. Bydd defnyddio'r rhain yn sicr yn cyfrannu at godi safonau trwy roi mwy o ganolbwynt i asesu yn y pwnc a hwyluso adnabod cam nesaf y broses ddysgu.

Y Cwricwlwm Cymreig

Nid yw'n anghyffredin i bobl gysylltu'r dimensiwn Cymreig mewn AG â gorffennol crefyddol Cymru. Hawdd deall hyn gan fod crefydd, fel yr ydym eisoes wedi cydnabod, wedi chwarae rhan bwysig yn hanes y genedl Gymreig. Rhan o'r dystiolaeth helaeth am hyn yw bodolaeth mannau addoliad ym mhob pentref, bron, yng Nghymru a'r ffaith fod dros bum cant o enwau lleoedd yn y wlad sy'n cychwyn â 'Llan' ac yn goffâd am seintiau Cymru. Tra bod gan y Cymry reswm dilys dros ymfalchïo yn eu treftadaeth grefyddol, cam mawr â'r Cwricwlwm Cymreig mewn AG fuasai canolbwyntio yn unig ar y gorffennol.

Dylai gwneud darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig mewn AG olygu, yn gyntaf, archwilio Cristnogaeth a chrefyddau eraill y byd fel y maent yn cael eu harfer yng Nghymru heddiw. Yn ôl Langtree (1997) un o haenau allweddol AG yw helpu plant i archwilio'r cwestiwn 'Beth mae'n ei olygu i fod yn Gristion, Sikh, Mwslim, Iddew, Bwdist, etc?'. Rhan o'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw galluogi disgyblion i ddatblygu sgiliau empathi fel y gallant 'wneud cyswllt rhwng cred pobl a'r dulliau o fyw sy'n deillio o hynny' (Langtree, 1997). Os derbyniwn fod hyn yn wir, yna gellid dweud fod ymgorffori'r dimensiwn Cymreig mewn AG yn golygu galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn yw bod yn Gristion, Hindŵ, Sikh, Mwslim, Iddew, neu Fwdhydd, sy'n byw *yng Nghymru heddiw*.

Man cychwyn da fuasai archwilio'r modd y mae crefydd yn cael ei harfer yn y gymuned leol. Gallai ymweld ag eglwysi a chapeli a dysgu am eu gwahaniaethau a'u tebygrwydd fod yn rhan o raglen felly. Byddai dod i wybod beth yw ystyr bod yn addolwr yn y gymuned Gristnogol leol hefyd yn weithgaredd addas iawn. Mae lle i themâu megis bedydd, priodasau, mynd i'r eglwys a'r ffordd y dethlir gwyliau megis y Pasg a'r Nadolig, ac felly hefyd waith arweinyddion crefyddol lleol. Fodd bynnag, nid oes raid cyfyngu astudio crefydd yn yr ardal i Gristnogaeth yn unig. Os yw rhai o brif

grefyddau'r byd wedi eu cynrychioli yn lleol, yna mae gan y plant berffaith hawl i ddod i wybod mwy amdanynt hwy hefyd. Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan yr awdur, rhoes un ysgol eglwys mewn pentref bychan adroddiad am lwyddiant ysgubol eu hymweliad â'r gymuned Hindŵaidd leol. Gwnaeth yr ymweliad, a gefnogwyd gan y rhieni a'r ficer lleol, lawer i godi ymwybyddiaeth yn lleol o ffordd o fyw y grŵp crefyddol bychan hwn oedd yn byw yn eu mys.

Adnodd defnyddiol i athrawon CA2 sy'n ceisio gwneud darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig mewn AG yw cyfres o lyfrau dan yr enw *O'r Dechrau i'r Diwedd* gan Guy, Mizon a Morgan (1999). Yn y gyfres mae llyfr am bump o'r prif grefyddau, yn ogystal â chanllaw i'r athro/athrawes. Maent yn rhoi manylion am fywydau plant sy'n byw yng Nghymru ac sy'n perthyn i'r crefyddau hyn ac yn dangos sut mae bod yn aelod o'r grefydd yn effeithio ar eu bywydau bob-dydd.

Y tu hwnt i hyn, gall disgyblion ymchwilio i weld sut mae crefydd yn cael ei chynnal yng Nghymru yn enwedig os yw hyn yn golygu edrych ar sut mae byw yng Nghymru yn cael effaith ar arferion crefyddol. Yn amlwg, un ffactor sy'n dylanwadu ar hyn ac sy'n haeddu ei hastudio gan y disgyblion yw'r iaith Gymraeg. Gallai astudio arferion, dathliadau a gwyliau crefyddol sydd yn unigryw i Gymru hefyd gyfrannu at ddysgu yn y maes hwn. Ymhlith enghreifftiau o'r dathliadau hyn mae'r Plygain, gwasanaethau Dydd Gŵyl Dewi, a Sul y Blodau, a'r arfer o addurno beddau gyda blodau i baratoi am y Pasg. Mae manylion am y rhain a llawer o arferion crefyddol Cymreig eraill ar wefan *Go Britannia Guide to Wales*: britannia.com/wales/culture2.

Tra dylai'r prif bwyslais parthed y *Cwricwlwm Cymreig* mewn AG fod ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru heddiw, ni ddylem lwyr anwybyddu cyfeiriadau at orffennol crefyddol Cymru. Mae gan seintiau Cymru, adeiladau crefyddol Cymreig, mynachaeth Gymreig, Methodistiaeth Gymreig, y Diwygiad a chyfieithu'r Beibl i Gymraeg oll gyfraniad i'w wneud i AG cynradd yng

Nghymru. Ymhellach, mae lle o hyd i'r storïau traddodiadol a adroddwyd yn ysgolion Cymru ers blyneddau lawer, megis Mari Jones a'i Beibl, a bywyd Dewi Sant, mewn AG yn yr unfed ganrif ar hugain yn ysgolion Cymru. Wedi'r cyfan, mae bywydau'r bobl hyn yn dangos yn berffaith sut y gall cred grefyddol ddylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau, maes y mae pob un o'r meysydd llafur cytunedig yng Nghymru heddiw yn ymdrin ag ef.

Ysgolion Eglwys

Fel y gwelsom, sefydlwyd yr ysgolion cyntaf yn y wlad hon gan yr Eglwys wladol, a thros y canrifoedd, cymerodd yr Eglwys ran flaenllaw ym maes addysg. Yr oedd deddfau addysg 1870, 1902, 1944 a 1988 oll yn darparu ar gyfer parhad ysgolion Eglwys. Yn fwy diweddar, sefydlodd Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 bedwar statws o ysgol: gwirfoddol cymorthedig, gwirfoddol rheoledig, ysgolion sylfaen ac ysgolion cymuned. Mae'r pedwar math i'w cael yng Nghymru.

Mae'r eglwysi yn ystyried eu darpariaeth addysgol fel rhan o'u hymrwymiad i'r genedl. Maent yn credu y dylai rhieni gael pob cyfle i ddewis addysg ysgol Eglwys i'w plant. Mae bron i chwarter disgyblion y wlad hon yn mynychu ysgol Eglwys ar ryw gyfnod yn eu haddysg.

Mewn ysgolion gwirfoddol rheoledig ac ysgolion sylfaen gyda naws grefyddol, bydd addysg grefyddol fel rheol (oni fynnir i'r gwrthwyneb gan y rhieni) yn cael ei haddysgu yn unol â'r maes llafur y cytunwyd arno gyda'r AALI. Mewn ysgolion gwirfoddol cymorthedig, fodd bynnag, rhaid dysgu addysg grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd ysgol gymorthedig fel arfer yn defnyddio maes llafur sydd yn adlewyrchu cymeriad crefyddol yr ysgol. Mae'r mwyafrif helaeth o ysgolion cymorthedig yng Nghymru naill ai'n Babyddol neu yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.

Mae ysgolion Pabyddol yn defnyddio eu rhaglen genedlaethol eu hunain a gymeradwywyd ar gyfer addysg grefyddol. Er Medi 2001, bu ysgolion gwirfoddol cymorthedig yn chwe esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru yn defnyddio'r *Maes Llafur Addysg Grefyddol i Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru*, sydd yn newydd. Mae chwe haen wahanol i'r maes llafur newydd: y Beibl, Iesu, yr eglwys, bywyd a gwerthoedd Cristnogol, crefyddau eraill, a gwyliau. Yn y maes llafur hefyd mae adran ddefnyddiol am agweddau o hanes Cristnogaeth Gymreig. Y bwriad yw i hyn fod yn rhan o addysgu'r chwe adran.

Er eu bod yn enwadol, nid oes unrhyw awgrym fod AG mewn ysgolion cymorthedig yn gyffesol ei natur. Mae ysgolion cymorthedig, fel pob math arall o ysgol, yn parchu hunaniaeth unigolion. I'r disgyblion hynny sy'n dod o gartrefi Cristnogol, bydd AG mewn ysgol gymorthedig yn sicr yn helpu i'w meithrin yn eu ffydd eu hunain. I'r disgyblion hynny sy'n dod o gartrefi nad ydynt yn Gristnogol, dylai AG ysgol gymorthedig eu galluogi i gael dealltwriaeth dda o Gristnogaeth, i gael profiad cadarnhaol o'r grefydd ac i'w helpu i gael rhai o'r gwerthoedd a fu'n sylfaen i'r traddodiad Cristnogol dros y canrifoedd.

Y dyfodol

Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, aeth addysg grefyddol trwy gyfnod o newid na welwyd ei debyg erioed. Mewn cymdeithas fodern, agored, dechnolegol a welsai ddiflaniad pynciau megis Lladin a Groeg o'r cwricwlwm (a oedd hefyd yn bynciau oedd â hanes hir dros y canrifoedd), rhaid oedd i addysg grefyddol newid neu ddiflannu ei hun. Clod i'r pwnc a'r amryfal athrawon ac addysgwyr oedd yn gysylltiedig ag ef yn ystod yr amser hwn yw'r ffaith iddo newid, gan sicrhau ei fod yn aros yn rhan mor hanfodol o addysg plant ag y bu erioed.

Yn ei ddadansoddiad o gyfeiriadau at AG yn adroddiadau AEM o 1985 tan 1991, nododd Orchard (1991,1994):

The over-riding impression having studied these reports is that religious education was well taught in a minority of schools... religious education tended to move too far into the moral area at the expense of the specifically religious; more rigorous planning and schemes of work for religious education were needed in most schools. (Orchard, 1994)

Mae'r canlynol yn nodweddiadol o'r sylwadau negyddol a gaed yn yr adroddiadau: 'angen rhaglen amlycach', 'mae ailadrodd a diffyg cynnydd', 'angen ymestyn arfer da', 'rhaid i addysg grefyddol fod yn fwy heriol'. Cyfeiriai adroddiadau yn aml at addysgu gwael a chynnwys anwastad, ond, yn ôl Orchard, 'statws y pwnc' oedd craidd y broblem.

Ers hynny, cafwyd gwelliant cyson mewn safonau yng Nghymru a Lloegr. Dywed Estyn, yn 2000, fod safonau mewn ysgolion yn foddhaol neu'n well yn 97% o ddosbarthiadau CA1 (o'u cymharu ag 80% saith mlynedd ynghynt) ac mewn 95% o ddosbarthiadau CA2 (o'u cymharu â 50% saith mlynedd ynghynt) (Estyn, 2000). Yr oedd safonau da neu dda iawn yn cael eu cyrraedd yn 48% o'r dosbarthiadau yn CA1 a 43% o ddosbarthiadau CA2. Dywed yr adroddiad mai rheswm pwysig am hyn yw, 'lle bo angen, mae'r holl ysgolion yn awr yn cynllunio ar sail y maes llafur y cytunir arno'n lleol'.

Mae'n amlwg fod safonau wedi gwella mewn AG ers y cyfnod a grybwyllir gan Orchard. Cafodd cynhyrchu meysydd llafur cytunedig newydd a'u hadolygu wedi hynny bob pum mlynedd effaith sylweddol ar hyn. Hefyd, mae'r ffaith fod y rhan fwyaf o ysgolion bellach yn cynhyrchu cynlluniau tymor hir, canol a byr manwl mewn AG er mwyn sicrhau cydbwysedd a chynnydd digonol yn y ddarpariaeth wedi cael effaith lesol dros ben. Ni welwn bellach y dyddiau pryd yr oedd AG gynradd yn cael ei chynllunio bron yn gyfan gwbl o gwmpas themâu megis 'Dŵr', 'Anifeiliaid' a 'Lliw' a oedd weithiau yn arwain at ddisgyblion yn clywed rhai storïau (megis hanes Noa a oedd fel petae'n ffitio i bob thema, bron) drosodd a throsodd tra bod agweddau pwysig eraill ar y pwnc yn cael eu hesgeuluso. Cafwyd mwy o bwyslais ar AG aml-ffydd ac ar roi profiad uniongyrchol i'r disgyblion o grefydd, ac y mae'r ddeubeth wedi cynyddu diddordeb ymhlith disgyblion. Mae'r ffaith fod AG, fel pob pwnc

arall, yn cael ei harolygu'n gyson hefyd wedi effeithio'n gadarnhaol ar safonau. Nid yn unig y ceir adroddiadau am AG fel rhan o'r broses hon, ond anogir ysgolion hefyd yn awr i werthuso eu perfformiad eu hunain yn feirniadol. Pan wneir hyn o ddifrif, mae'n cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y pwnc.

Beth yw dyfodol AG yng Nghymru? Er iddo fod yn rhan o fyd addysg ers amser maith, mae AG yn dal yn rhan bwysig o gwricwlwm yr ysgol a bydd yn parhau felly. Y rheswm am hyn yw ei fod yn helpu i ddatblygu ystod o gysyniadau, sgiliau ac agweddau sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolion a hybu eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Heddiw, yn gymaint ag ar unrhyw adeg yn y gorffennol, rhaid i ddisgyblion gael y medr i archwilio, adfyfyrio a meddwl drostynt eu hunain, a medru dod i farn ar sail gwybodaeth am gred ac arferion crefyddol.

Mae'r ewyllys da yno. Mewn arolwg diweddar (Davies, 2000), hawliai 95.6% o brifathrawon fod AG yn rhan hanfodol o gwricwlwm yr ysgol. Datgelodd yr un arolwg mai'r prif broblemau a wynebwr gan athrawon wrth addysgu'r pwnc oedd diffyg gwybodaeth bersonol, yn enwedig am grefyddau'r byd, a dim digon o amser i ymdrin â phob agwedd o'r pwnc. Dyma ddwy broblem y bydd gofyn ymdrin â hwy os yw safonau i barhau i wella.

Mae dogfen ganllaw (ACCAC, 2001) i'r ddau ar hugain AAL yng Nghymru yn rhoi rhaglenni astudio enghreifftiol a disgrifiadau lefel cenedlaethol ar gyfer AG ac yn annog AAL i ddefnyddio fformat cyffredin gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol wrth adolygu eu maes llafur AG. Os gwrandewir ar y cyngor yn y ddogfen hon, yna bydd mwy o gysondeb parthed cynnwys a chyflwyniad meysydd llafur Cymreig yn y dyfodol. Gan fod llawer yn gyffredin eisoes rhwng y meysydd llafur cytunedig ac y byddant yn siŵr o ymdebygu fwyfwy yn y dyfodol, cafwyd dadl dros ddatblygu maes llafur Cymru-gyfan ar gyfer addysg grefyddol. Hawlia pleidwyr y ddadl hon y bu maes llafur o'r fath

yng Nghymru yn y gorffennol ac y buasai datblygiad tebyg yn y dyfodol yn atal dyblygu a chost ddiangen. Rhaid aros i weld a ddaw maes llafur o'r fath i fodolaeth. Yr hyn sy'n eglur yw fod cydweithredu agosach rhwng AALI ym mater addysg grefyddol nid yn unig yn ddymunol ond yn anorfod.

Yn olaf, mae llawer o'r digwyddiadau a ddenodd sylw'r byd dros y blynyddoedd diwethaf wedi tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd datblygu gwerthoedd personol a'r angen am well dealltwriaeth rhwng diwylliannau. Yn sicr, mae gan addysg grefyddol, gyda'i bwyslais ar hybu dealltwriaeth a datblygu sgiliau ac agweddau, ran hollbwysig i baratoi ein plant ar gyfer bywyd yn ein cymdeithas yn y dyfodol.

Cwestiynau trafod

1. Bydd y ffordd yr ydych yn addysgu addysg grefyddol yn aml yn dibynnu ar eich barn am ddiben y pwnc. Rhestrwch brif amcanion y pwnc fel y gwelwch chwi hwy.
2. Yn eich barn chwi, sut y gall cred bersonol athro (neu ddiffyg cred) ddylanwadu ar y ffordd mae'n addysgu'r pwnc?
3. Er mai pwnc addysgol yn hytrach na chyffesol yw AG, a ydych yn meddwl y dylid addysgu plant:
 - fod Duw yn bod
 - fod y Beibl yn wir
 - y dylent weddio
 - i ganu emynau Cristnogol
 - i ddweud Gweddi'r Arglwydd?
4. Nid yw'r gyfraith yn nodi pa ganran o amser y dylid ei neilltuo i Gristnogaeth a chrefyddau'r byd mewn rhaglen AG ysgol gynradd. Pa un o'r canlynol fyddai fwyaf derbyniol yn eich barn chwi:
 - Cristnogaeth 50% a chrefyddau eraill 50%
 - Cristnogaeth mwy na 50% a chrefyddau eraill llai na 50%
 - Yr un faint o amser i'r chwe phrif grefydd?

5. Buasai llawer o athrawon yn honni fod addysgu AG yn yr ysgol gynradd yn brofiad heriol. Dau o'r anawsterau mwyaf yr honna athrawon sy'n dod i'w rhan yw peidio bod â digon o amser i ymdrin â phob agwedd o'r pwnc, a diffyg gwybodaeth bersonol am grefyddau'r byd. Beth, yn eich barn chwi, yw'r her fwyaf i chwi? Sut mae modd goresgyn yr anawsterau hyn?
6. Mae gan rieni yr hawl i dynnu eu plant o wersi AG. Yr oedd hyn yn gwneud llawer o synnwyr pan oedd AG yn bwnc cyffesol. Heddiw, fodd bynnag, mae amcanion addysgol i bob maes llafur y cytunwyd arno. A ydych yn tybio y dylid tynnu'n ôl yr hawl i gadw plant o'r gwersi?
7. Beth, yn eich barn chwi, yw'r prif wahaniaethau rhwng AG ac addoliad yn yr ysgol gynradd?
8. Sut y buasech chwi'n dweud y gallai AG gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol plant? Ym mha ffyrdd y gall pynciau eraill gyfrannu at y maes pwysig hwn?

Llyfryddiaeth

- ACCAC (2001) *Adolygiad o Feysydd Llafur Addysg Grefyddol – Arweiniad i Awdurdodau Addysg a Chynadleddau Maes Llafur Cytunedig yng Nghymru*. Caerdydd: ACCAC.
- AEM (Cymru) (1988) *Addysg Grefyddol yn Ysgolion Cynradd Cymru*. Caerdydd: Swyddfa Gymreig.
- Bastide, D. (1987) *Religious Education 5-12*. Lewes: Falmer Press.
- Bastide, D. (gol.) (1992) *Good Practice in Primary Religious Education 4-11*. Lewes: Falmer Press.
- Bastide, D. (1999) *Co-ordinating Religious Education Across the Primary School*. Lewes: Falmer Press.
- Bates, D. (1992) Developing RE in Topic-based Approaches to Learning. Yn D. Bastide (gol.) *Good Practice in Primary Religious Education 4-11*. Lewes: Falmer Press.
- Broadbent, J. (1993) World Religions in the Primary School. Yn C. Erricker (gol.), *Teaching World Religions: A Teacher's Handbook*. Rhydychen: Heinemann.
- Cato, P. (1990) *Folens Brainwaves RE: First Topics*. Llundain: Folens.
- CEM (Christian Education Movement) (1991) *Planning RE in Schools*. Derby: CEM Publications.
- Cole, W.O. ac Evans-Lowndes, J. (1991) *Religious Education in the Primary Curriculum: Teaching Strategies and Practical Activities*. Norwich: RMEP.
- Cooling, M. (1991) *Christianity Topic Book One*. Norwich: RMEP.
- Cooling, M. (1992) *Christianity Topic Book Two/Three*. Norwich: RMEP.
- Copley, T. (1994) *Religious Education 7-11*. Llundain: Routledge.
- Copley, T. (1997) *Teaching Religion, Religious Education in England and Wales 1944 to 1994*. Exeter: University of Exeter School of Education.
- Copley, T. (2000) *Spiritual Development in the State School*. Exeter: University of Exeter School of Education.
- Copley, T. a Copley, G. (1993), *Religious Education in Key Stage 1: a Practical Guide*. Llundain: Southgate.
- Davies, G. (2000) Head Teachers' Perceptions of Religious Education in the Primary School. *Welsh Journal of Education*, 9 (1), 18-33.
- Durham Report (1970) *The Fourth R*. Llundain: SPCK.
- Estyn (2000) *Anelu at Ragoriaeth mewn Addysg Grefyddol*. Caerdydd: Estyn.
- FARE (1990) *Forms of Assessment in RE*. Exeter: University of Exeter School of Education.
- Gateshill, P. a Thompson, J. (1992) *Religious Artefacts in the Classroom*. Llundain: Hodder and Stoughton.
- Gent, L. a Gent, B. (1997a) *Curriculum Bank: Religious Education KS1*. Leamington Spa: Scholastic.
- Gent, L. a Gent, B. (1997b) *Curriculum Bank: Religious Education KS2*. Leamington Spa: Scholastic.
- Guy, T., Mizon, S. a Morgan, P. (1999) *O'r Dechrau i'r Diwedd Fy Mywyd fel Cristion*. Caerdydd: Gwasg y Dref Wen.
- Guy, T., Mizon, S. a Morgan, P. (1999) *O'r Dechrau i'r Diwedd Fy Mywyd fel Hindŵ*. Caerdydd: Gwasg y Dref Wen.
- Guy, T., Mizon, S. a Morgan, P. (1999) *O'r Dechrau i'r Diwedd Fy Mywyd fel Iddew*. Caerdydd: Gwasg y Dref Wen.
- Guy, T., Mizon, S. a Morgan, P. (1999) *O'r Dechrau i'r Diwedd Fy Mywyd fel Mwslim*. Caerdydd: Gwasg y Dref Wen.

- Guy, T., Mizon, S. a Morgan, P. (1999) *O'r Dechrau i'r Diwedd Fy Mywyd fel Sikh*. Caerdydd: Gwasg y Dref Wen.
- Guy, T., Mizon, S. a Morgan, P. (1999) *O'r Dechrau i'r Diwedd: Canllaw Athrawon*. Caerdydd: Gwasg y Dref Wen.
- Gwasg Prifysgol Cymru (1944) *Cymry Enwog: bywgraffiadau byr*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Hammond, J., Hay, D., Moxon, J., Netto, B., Raban, K. Straugheir, G. a Williams, C. (1990) *New Methods in RE Teaching: an experiential approach*. Llundain: Oliver and Boyd/Longmans.
- Howard, C. (1995) *Investigating Artefacts in Religious Education: A Guide for Primary Teachers*. Norwich: RMEP.
- Hughes, S. (1993) *Motyn*. Llundain: Red Fox.
- Jackson, R. a Starkings, D. (gol.) (1990) *The Junior RE Handbook*. Llundain: Stanley Thornes.
- Kinkaid, M. (1991) *Learning in RE*. Llundain: Hodder.
- Langtree, G. (1997) *Are You Ready?* Norwich: RMEP.
- McCreery, E. (1993) *Worship in the Primary School*. Llundain: David Fulton Publishers.
- Moorcroft, C. (1994) *Folens RE Pupils' Books*. Llundain: Folens.
- Moorcroft, C. (1995) *Folens RE Teacher Resource Books*. Llundain: Folens.
- Orchard, S. (1991) What was wrong with religious education? An analysis of HMI reports 1985-1988. *British Journal of Religious Education* 14, 15-21.
- Orchard, S. (1994) A further analysis of HMI reports 1989-1991. *British Journal of Religious Education* 16, 21-27.
- Palmer, S. a Breuilly, E. (1993) *REAL Junior Teacher's Handbook*. Llundain: Collins.
- Palmer, S. a Breuilly, E. (1995) *REAL Infant Teacher's Handbook*. Llundain: Collins.
- Paramiter, R. a Price, M. (1993) *Blueprints Religious Education Key Stage 1/2*. Llundain: Stanley Thornes.
- Read, G., Rudge, J., a Teece, G. (1992) *How do I Teach RE?* Westhill Project Teachers' Manual. Cheltenham: Nelson Thornes.
- Schools Council (1971) *Religious Education in Secondary Schools: Working Paper 36*. Llundain: Evans/Methuen.
- Schools Council (1977) *Religious Education in Primary Schools - Discovering an Approach*. Llundain: Evans/Methuen.
- School Curriculum and Assessment Authority (1994a) *Model 1, Living Faiths Today*. Llundain: School Curriculum and Assessment Authority.
- School Curriculum and Assessment Authority (1994b) *Model 2, Questions and Teachings*. Llundain: School Curriculum and Assessment Authority.
- Smith, H. (1990) *The Really Practical Guide to Primary RE*. Cheltenham: Stanley Thornes.
- SPAEM (1994) *Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Cynradd: Addysg Grefyddol yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2*. Caerdydd: SPAEM.
- Sutcliffe, J.M. (gol.) (1984) *A Dictionary of Religious Education*. Llundain: SCM Press.
- The Warwick RE Project (1994) *Bridges to Religion: Teacher Resource Book*. Llundain: Heinemann.
- Watson, B.G. (1993) *The Effective Teaching of Religious Education*. Llundain: Longman.